Gwobr Ansawdd Genedlaethol
Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru

Welsh Network of Healthy School Schemes
National Quality Award

# Adroddiad Gwobr Ansawdd Genedlaethol

ar yr ymweliad â

Ysgol Betws yn Rhos

Dyddiad – Gorffennaf 13eg/14eg, 2017

## Cyflwyniad

Llongyfarchiadau ar eich llwyddiant i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru. Yr ydym yn falch iawn i gadarnhau bod Ysgol Betws yn Rhos yn cyfarfod â'r holl feini prawf ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol. Mae'r meini prawf hyn wedi eu gosod allan yn erbyn 7 testun iechyd:

1. Bwyd a ffitrwydd (maeth a gweithgareddau corfforol)
2. Iechyd a lles Meddyliol ac Emosiynol gan gynnwys lles y staff
3. Datblygu personol a chydberthynas gan gynnwys addysg rhyw a pherthnasoedd
4. Defnyddio a chamddefnyddio sylweddau, gan gynnwys alcohol, ysmygu a chyffuriau (cyfreithiol, anghyfreithiol a phresgripsiwn)
5. Amgylchedd gan gynnwys eco-fentrau a gwelliannau i'r ysgol a'r amgylchedd ehangach
6. Diogelwch gan gynnwys agweddau amrywiol fel amddiffyn plant, diogelwch yr haul, diogelwch y rhyngrwyd a chymorth cyntaf
7. Hylendid gan gynnwys ar draws yr ysgol a thu hwnt

Am ragor o wybodaeth ar feini prawf GAG, ymwelwch â
http://gov.wales/topics/health/improvement/schools/?skip=1&lang=cy

Mae'r meini prawf yn cael eu cefnogi gan nifer o egwyddorion sylfaenol sef;

- Pwysigrwydd cyfranogiad y disgyblion yng nghraidd bywyd ysgol sydd yn effeithio ar les plant a phobl ifanc e.e. dysgu ac addysgu, amgylchedd, gofal bugeiliol
- Pwysigrwydd yr ymrwymiad a'r ddealltwriaeth sydd gan holl gymuned yr ysgol
- Bod agweddau iach tuag at iechyd yn bodoli
- Cydraddoldeb
- Y cyswllt â rhaglenni a pholisïau cenedlaethol a lleol

Mae ysgolion sydd yn llwyddo i dderbyn y Wobr Ansawdd Genedlaethol yn gweithredu mentrau sydd yn ymwneud â lles i'r safon uchaf. Yn yr adroddiad hwn yr ydym yn nodi cryfderau nodedig eich ysgol wrth i chi fynd ati i hyrwyddo lles pawb sydd yn ymwneud â'r ysgol. Mae'r adroddiad hefyd yn adnabod meysydd sydd angen ystyriaeth arnoch er mwyn datblygu ymhellach. Gobeithiwn fod yr adroddiad yn rhoi hwb i chi ac yn cynnig arweiniad defnyddiol fydd yn galluogi disgyblion a staff Ysgol Betws yn Rhos i barhau ac i ddatblygu rhai o'r mentrau rhagorol mae'r ysgol eisoes yn ei gweithredu fel eu bod hyd yn oed yn cael eu sefydlu ymhellach ym mywyd yr ysgol.

Eurwen Hulmston

**Crynodeb yr ymweliad**

Mae holl staff yr ysgol yn ymwybodol o'r un neges, sef sicrhau bod pob disgybl yn derbyn addysg gytbwys a pherthnasol gydag iechyd a lles y disgyblion yn cael sylw dyladwy iawn a'r gofal a ddangosir tuag at y disgyblion yn amlwg yn holl weithgareddau'r ysgol. Mae gweledigaeth yr ysgol yn cyflwyno yn union beth yw nod yr ysgol sef "Llwyddo'n gyda'n gilydd" a'r disgyblion yn ymwybodol o arwyddocâd hwn ym mywyd bod dydd yr ysgol. Mae gofal a charedigrwydd y disgyblion i'w weld o'r dosbarth meithrin i ddisgyblion Bl.6 a hefyd yng nghyfathrach y staff gyda'i gilydd a gyda holl gymuned yr ysgol.

Mae pawb ar y staff, gan gynnwys y staff atodol a staff y cylch meithrin a'r clybiau gofal yn gweithio fel tîm, gydag arweiniad brwdfrydig y pennaeth sydd hefyd yn gydlynydd yr ysgol iach o fewn yr ysgol. Mae cefnogaeth y rhieni a'r llywodraethwyr yn dda iawn gyda chymdeithas rhieni weithgar sy'n gefnogol iawn i waith yr ysgol. Mae adnoddau cymunedol arbennig o dda ar dir yr ysgol gyda neuadd sydd yn cael ei ddefnyddio yn ystod y dydd i'r Mudiad Ysgolion Meithrin i glwb gofal cyn ysgol, i ddosbarth yn y boreau ac i lawer o weithgareddau ysgol sydd angen ychydig mwy o ofod na all y prif adeilad gynnig. Mae cyfleusterau chwaraeon y gymuned hefyd yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan yr ysgol a prin rwy'n siŵr ydy'r ysgolion o'r maint yma sydd ag adnoddau chwaraeon mor hyblyg a chyfleus. Mae cyswllt yr ysgol gyda'r Eglwys yng Nghymru yn gryf hefyd.

Mae gwefan ysgol yn cynnwys cryn dipyn o wybodaeth i'r rhieni, defnyddir "Twitter" i rannu newyddion ac i atgoffa rhieni am ddigwyddiadau. Mae cyswllt agos gyda'r rhieni a chafwyd y teimlad trwy'r ymweliad bod yr ysgol a'i chymuned yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae'r ymdeimlad o fewn yr ysgol yn gartrefol iawn gyda staff a disgyblion yn rhan o un teulu mawr.

Bu'r ysgol yn defnyddio'r cynllun "Conerstones" fel sail i'w cwricwlwm ond maent, ar hyn o bryd, yn prysur addasu a datblygu er mwyn ymgorffori'r cynllun "Building Blocks" i mewn i'w cynllunio cwricwlaidd. Mae'r dosbarthiadau yn cynnwys gwahanol oedrannau oherwydd maint yr ysgol ond yr ysgol yn sicrhau hyblygrwydd trwy wahanu dosbarthiadau i ddau oedran yn unig ar adegau.

Mae'r ysgol yn le hynod o hapus gydag awyrgylch hyfryd. Er bod safle'r ysgol yn un weddol fach, mae mannau distaw, mannau chwarae gyda pharc antur bach, wal ddringo, gerddi gyda "poly tunnell" ac ardal goediog yr ardd yn llawn o fannau i hybu dychymyg y disgyblion. Mae adeilad yr ysgol, er yn weddol gyfyng, yn llawn o waith y disgyblion, darluniau o weithgareddau ayb a pob cornel yn cael ei defnyddio, ond er hyn i gyd yn daclus, glan a thwt.

Diolch yn fawr iawn i'r holl staff ar draws cymuned yr ysgol am yr holl waith caled ac am y croeso cynnes.

**Uchafbwyntiau'r ymweliad**

Bwyd a Ffitrwydd

Bwyd

- Polisi wedi ei seilio ar un sirol wedi ei addasu i'r ysgol. Polisi disgyblion wedi ei drafod gan gyngor ysgol eleni.
- Tri aelod o staff yn gymwys gyda Diogelwch Bwyd lefel 2.
- Cymryd rhan yn Cogurdd yn flynyddol .
- Clybiau gofal yn dilyn Rheolau Bwyd a Maeth Mewn Ysgolion 2013
- Clwb Coginio i ddisgyblion Bl4 a 6.
- Gwobr cwrteisi amser cinio wedi ei sefydlu yn ddiweddar gyda chydweithrediad staff y gegin. Disgyblion i gyd yn drefnus iawn yn clirio eu platiau ar ôl cinio.
- Rhifau cinio yn weddol uchel – yn 30% dewis pecyn bwyd.
- Cefnogir yfed dwr gyda pheiriant oeri dŵr a photeli aml ddefnydd. Yr ysgol yn golchi'r poteli dwr mewn peiriant golchi llestri.
- Rheol gadarn/polisi am fyrbrydau – Cyfnod Sylfaen ffrwyth a llefrith; CA2 - ffrwyth a dŵr.
- Clwb garddio yn ystod y tymor tyfu a'r llysiau a'r ffrwythau a dyfir yn y gerddi a'r "poly tunnel" yn cael eu coginio gan y gogyddes a'u bwyta ar amser cinio.
- Gwaith arbennig iawn trwy'r cynllun BOB's (Bwyd o Bwys) gyda disgyblion Bl.5 yn flynyddol yn gwneud y gwaith yma. Disgyblion eraill yn cael blasu'r bwyd a baratowyd
- Hylendid yn derbyn sylw dyladwy iawn yn holl weithgareddau bwyd a bwyta o fewn yr ysgol.

Ffitrwydd

- Dwy awr o Addysg Gorfforol.
- Cynhelir Wythnos Iach bob dwy flynedd. Yr wythnos yn cynnwys ystod o weithgareddau corfforol.
- Cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon lleol a'r Urdd gyda chryn lwyddiant.
- Clybiau chwaraeon allgyrsiol ar hyd y flwyddyn.
- Ymweliadau i ganolfannau addysg awyr agored – Nant BH a Glan-llyn.
- Gwersi beicio Bl6 yn flynyddol.
- Bydis Buarth yn helpu disgyblion llai ac yn hybu amser chwarae prysur.
- Adnoddau arbennig i gefnogi chwaraeon ac i sicrhau digon o le i ddisgyblion gael amser chwarae egnïol.
- Cysylltiadau cryf gyda'r clwb chwaraeon lleol a'r clwb golff a theithiau cerdded gyda'r gymuned.

Iechyd a Lles Emosiynol

- Un o gryfderau'r ysgol yn bendant yw cynhwysiant. Mae pob un disgybl, beth bynnag yw eu hanawsterau yn cael yn union yr un cyfleoedd.
- Amser cylch yn cael ei gyflwyno ym mhob dosbarth gan athrawes sydd wedi ei hyfforddi gan Jenny Mosley. Hyn yn sicrhau cysondeb a safon yn y cyflwyno.
- Defnyddir y cynllun Camau a'r cynllun SENSE gyda'r disgyblion hŷn i gyflwyno gwaith ar emosiynau a pherthnasedd.
- Polisïau i gyd yn gyfoes a da oedd gweld polisïau disgyblion ar wrth fwlio a chydraddoldeb ayb.
- Cynllun clod yr ysgol wedi ei seilio ar bwyntiau llysoedd, seren yr wythnos a siaradwr Cymraeg yr wythnos. Y disgyblion yn cael eu cyflwyno mewn gwasanaeth clod wythnos ac yn dangos balchder mawr yn eu gwobr. Gyda'r disgyblion ieuengaf, mae tegan ar ffurf

seren i seren yr wythnos a draig i'r siaradwr Cymraeg yn cael ei gadw am wythnos.

- Y bydis buarth yn ofalus o'r disgyblion llai ac yn bendant yn mwynhau'r gwaith.
- Cyngor ysgol yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn cadw cofnodion manwl.
- Clybiau allgyrsiol diddorol ar draws y flwyddyn sy'n newid o hanner tymor i hanner tymor.
- Gwaith cwricwlaidd, y gwasanaethau a gwaith amser cylch sy'n cael ei gofnodi, i gyd yn cefnogi a datblygu'r agwedd yma.
- Bu Childline yn yr ysgol tua deunaw mis yn ôl i roi cyflwyniad i'r disgyblion.
- Gwelwyd gwaith diddorol ar drosglwyddo wedi ei gyflwyno gan gynnwys trosglwyddo o flwyddyn i flwyddyn o fewn yr ysgol.
- Cegin ac ystafell staff hynod o gyfforddus a defnyddiol, yn enwedig o gofio maint yr ysgol.

## Datblygu Personol a Pherthnasedd

- Polisi Addysg Rhyw yn dilyn y gofynion diweddaraf.
- Y cynllun Tyfu i Fyny wedi ei sefydlu trwy'r ysgol. Defnyddir adrannau o'r pecyn SENSE gyda'r disgyblion hŷn hefyd. Y gwaith yn NGH2 yn cael ei gyflwyno gan aelod penodol o'r staff
- Arfarniadau yn cael eu cwblhau gan y disgyblion hŷn yn dilyn y gwersi.
- Gwaith cwricwlaidd ar berthnasedd trwy'r themâu a gwaith Camau.
- Ymweliadau gan Childline a Hafan Cymru.

## Defnyddio a Chamddefnyddio Sylweddau

- Polisi sirol cyfoes sy'n cynnwys ysmygu, sigarennau electroneg, alcohol a sylweddau cyfreithlon ac anghyfreithlon.
- Ymweliadau rheolaidd i Bentref Peryglon.
- Ymweliad gan Paid Cyffwrdd, Dweud tua deunaw mis yn ôl.
- Ymwelwyr yn cynnwys meddygon a nyrsys wedi ymweld gyda'r Cyfnod Sylfaen i gefnogi'r agwedd yma.
- Gwaith CA2 trwy waith thema a pheth gwaith traws cwricwlaidd trwy lenyddiaeth.
- Gwelwyd gwaith cwricwlaidd da yn llyfrau'r disgyblion.

## Yr Amgylchedd

- Yr ysgol, y llynedd, wedi derbyn yr ail faner werdd i'r cynllun Ysgolion Eco.
- Gwaith ail gylchu yn rheolaidd.
- Yr ardal tu allan yn symbylol gydag ystod o amgylchoedd ar gael i'r disgyblion.
- Gwaith cwricwlaidd da, ar draws ystod oed yr ysgol, yn cefnogi'r agwedd yma.
- Clwb Natur a Chlwb Garddio ar gael i'r disgyblion.
- Dathlu Pythefnos Masnach Deg.
- Gwesty trychfilod sy'n boblogaidd iawn gyda'r disgyblion.
- Tyfir llawer o ffrwythau a llysiau a'r tyfiant yn llwyddiannus iawn yn y polytunnel.
- Llythyrau i rieni trwy e bost a defnyddir tecstio a Thrydar i gysylltu gyda rhieni.
- Ymwelwyr ac ymweliadau yn cael eu trefnu i gefnogi'r agwedd yma.
- Gwaith ar arbed ynni a dŵr gydag arbenigwyr yn cefnogi.
- Cyngor Eco gweithgar.

Diogelwch

- Llawer o bolisïau cyfoes ar gael i gefnogi'r agwedd yma gan gynnwys polisïau diogelu, polisi diogelwch yn yr haul, polisi diogelwch ar y we ayb.
- Safle ysgol yn ddiogel.
- Rhieni wedi derbyn llyfryn ar ddiogelwch ar y rhyngrwyd a chynhaliwyd noson i rieni ar yr agwedd yma ym mis Hydref 2016.
- Aelod o'r staff ar fuarth yr ysgol ben bore i sicrhau bod y disgyblion yn ddiogel wrth gyrraedd y safle.
- Kerbcraft yn flynyddol.
- Gwersi beicio a sgwteri'n flynyddol.
- Gwaith ar ddiogelwch yn yr haul.
- Ymwelwyr diddorol i gefnogi'r agwedd yma – RNLI, Gwasanaeth Tân, Gwasanaeth Ambiwlans, Childline, Hafan Cymru ayb.
- Diogelwch ar y we yn cael sylw dyladwy o fewn yr ysgol.

Hylendid

- Polisi hylendid cyfoes.
- Tri aelod o'r staff yn gymwys gyda hylendid bwyd.
- Hylendid yn y cynllun BOB's yn arbennig o dda.
- Gwaith cwricwlaidd thematig yn cynnwys agweddau o hyn – gwaith ar ficrobau.
- Cegin staff yn arbennig o lân gyda peiriant golchi llestri.
- Poteli dwr y disgyblion yn cael eu golchi yn y peiriant golchi llestri.
- Canllawiau golchi dwylo wrth sinciau yn nhoiledau'r disgyblion.
- Hyfforddiant golchi dwylo wedi ei gyflwyno i'r disgyblion trwy ddefnyddio peiriant UV.
- Clybiau gofal yn dilyn argymhellion hylendid yn arbennig o dda.
- Gwaith "ebugs" yn barod wedi ei integreiddio i fewn i gynllunio cwricwlwm yr ysgol.

**Meysydd sydd angen ystyriaeth bellach**

- Wrth i chi newid eich cynlluniau cwricwlwm fel yr ydych yn paratoi i wneud ar hyn o bryd, ategu colofn fel bod pawb yn gwybod ble mae ABCh yn ffitio a chyfrifoldeb pwy ydy cyflwyno beth.
- Poster golchi dwylo yn nhoiled staff – swyddogol neu gan ddisgyblion.
- Gwella'r adnoddau gwaredu yn nhoiledau merched hŷn a'r staff.
- Ail benodi llysgenhadon chwaraeon flwyddyn ysgol nesaf.
- Efallai edrych ar y cynllun Swyddogion Diogelwch ar y Ffordd Iau, fel dull arall o ymestyn cyfranogiad disgyblion.
- Edrych ar ffordd o integreiddio rhedeg (Clwb Dal i Fynd, Milltir y Dydd neu debyg) i mewn i ddiwrnod ysgol.
- Ehangu'r wybodaeth sydd ar eich gwefan ysgol i gynnwys adnoddau i rieni fel y daflen deor afiechydon newydd, bwydlen cinio'r ysgol, gwybodaeth am becynnau bwyd iach ayb.
- Byddai creu polisi profedigaeth yn ddatblygiad da a hefyd datblygu llawlyfr staff fyddai'n cynnwys rhediad y diwrnod, polisi marcio'r ysgol, eich cynllun clod ayb.

**Adborth i ddisgyblion**

Annwyl ddisgyblion Ysgol Betws yn Rhos
Diolch yn fawr iawn am wneud ein hymweliad yn un mor bleserus. Roedd yn wych i gael siawns i siarad gyda chymaint ohonoch ac roedd pawb yn garedig a chwrtais.

Rhaid rhoi diolch arbennig i'r disgyblion a'n harweiniodd ni ar ein taith o amgylch yr ysgol. Fe wnaethoch yn wir fwynhau hyn ac fe welsom gymaint o bethau oedd yn bwysig i chi fel disgyblion. Diolch hefyd i'r disgyblion am y sgetsau da iawn y gwnaethoch ysgrifennu a pherfformio i ni am agweddau'r ysgol iach. Da iawn chi! Yn hwyrach yn y bore cawsom gyflwyniadau pŵer bwynt wedi eu dylunio a'u creu gan y disgyblion hŷn, eto ar waith yr ysgol iach. Roedd y rhain yn dangos yn glir i ni eich bod yn deall beth yw bod a byw yn iach. Roedd y cyflwyniadau yn gymorth i ni wrth asesu eich ysgol ar gyfer y Wobr Ansawdd Genedlaethol.

Roedd y sesiwn trafodaeth a gawsom gyda'r cyngor ysgol a'r cyngor eco yn ddiddorol dros ben ac roedd eich sylwadau i gyd yn aeddfed a defnyddiol iawn i ni. Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac roedd hyn amlwg i ni trwy waith y cynghorau, a'r ffaith eich bod i gyd yn credu yn gryf yn ethos yr ysgol, sef "Llwyddo gyda'n gilydd".

Cawsom y cyfle i rannu cinio gyda chi yn neuadd yr ysgol ac roedd pawb yn ymddwyn yn dda ac roedd y cinio yn hynod o flasus. Fe wnaethon hefyd fwynhau amgylchedd allanol yr ysgol a braf oedd siarad â chi am yr ardd, y "poly tunnel" a'r gwahanol weithgareddau sydd ar gael.

Mae'n wych i weld y gall pob disgybl gael llais ac eich bod yn medru trafod agweddau sy'n bwysig i chi. Cofiwch, rydych chi yn helpu i wneud eich ysgol yn le gwych – rhywle sy'n ddiogel, hapus, prysur a lle gallwch ddysgu sut i fod yn iach wrth dyfu i fyny.

Daliwch ati gyda'r gwaith da a phob lwc i'r dyfodol,

Eurwen Hulmston

**Adborth i'r Cyd-gysylltydd lleol**